**Eitem: 17**

**Teitl:** Rhagolwg a Rhaglen Waith y Bwrdd 2024-2025

| | |
|---|---|
| **Camau Gweithredu sy'n ofynnol** | Ar gyfer sicrwydd a gwybodaeth. |
| **Amseru** | Arferol |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r Flaenraglen Waith y cytunwyd arni ar gyfer y Bwrdd. Cwblhawyd y Flaenraglen Waith yn Sesiwn Briffio'r Bwrdd ar 27 Mawrth 2024. |
| **Risg** | Mae'n bwysig bod gan y Bwrdd gynllun blynyddol o fusnes, dysgu a datblygiad y Bwrdd. Bydd hyn yn helpu'r Bwrdd i gwrdd â'i anghenion datblygu cyffredinol a darparu eglurder o ran patrwm ei gyfarfodydd. Heb y dull arferol hwn, mae risg na fydd y Bwrdd yn cyflawni ei amcanion ac na fydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau am lywodraethu da, bod yn agored ac yn dryloyw. |
| **Cyllid** | Bydd rhai goblygiadau ariannol wrth gyflwyno Cyfarfodydd Bwrdd, Sesiynau Briffio a dysgu/datblygu ar gyfer y Bwrdd. Fodd bynnag, caiff hyn ei asesu a'i werthuso'n rheolaidd a chaiff ei ariannu o'r cyllidebau presennol. |
| **Amcan y cynllun blynyddol**<br>**Amcan y cynllun strategol**<br>**Amcan y cynllun 100 diwrnod** | Mae'r Flaenraglen Waith ar gyfer y Bwrdd wedi'i chynllunio i alluogi a hwyluso cyflawni amcanion y sefydliad mewn dull cynlluniedig ac agored. |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** | Ddim yn berthnasol Fodd bynnag, bydd materion tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan o raglen ddysgu a datblygu'r Bwrdd. |
| **Cyfathrebu** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Yn Fewnol:** ein pobl ☒<br>**Yn Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Yn Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyaeth / Clirio** | Mae'r papur hwn wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr. |
| **Trafodaethau neu benderfyniadau blaenorol** | Cytunodd y Bwrdd ar flaenraglen waith ar gyfer 2023/2024. Mae'r Rhaglen Waith a'r Rhagolwg wedi'u datblygu ar ôl i'r Bwrdd gynnal adolygiad wedi'i hwyluso'n annibynnol o'i effeithiolrwydd ei hun ym mis Chwefror 2024. Cwblhawyd y rhaglen waith a'r ddogfen yn Sesiwn Briffio'r Bwrdd ar 27 Mawrth 2024. |
| **Awdur Cyflwyno** | Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd |
| **Dyddiad** | 08-04-2024 |

**Cefndir**

Cytunodd y Bwrdd ar flaenraglen waith ar gyfer 2023/2024. Mae'r Rhaglen Waith hon a'r Rhagolwg wedi'u datblygu ar ôl i'r Bwrdd gynnal adolygiad wedi'i hwyluso'n annibynnol o'i effeithiolrwydd ei hun ym mis Chwefror 2024 a nodi ei amcanion allweddol ar gyfer 2024/2025. Cwblhawyd y rhaglen waith a'r ddogfen yn Sesiwn Briffio'r Bwrdd ar 27 Mawrth 2024, sydd ynghlwm.

Ychwanegiad allweddol at y blaengynllun yw'r gydnabyddiaeth gan y Bwrdd bod angen cyfarfod cyhoeddus ychwanegol o'r Bwrdd yn y flwyddyn i ddod. Ychwanegwyd y cyfarfod ychwanegol hwn ar gyfer mis Mawrth 2025. Bwriad y Bwrdd yw symud i 6 chyfarfod Bwrdd cyhoeddus yn 2026.

**Manylion**

Gofynnir i'r Bwrdd fabwysiadu'r Flaenraglen Waith hon a'r cylch cyfarfodydd.

Bydd y Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd yn adolygu'r Rhaglen Waith yn gyson a bydd unrhyw newidiadau perthnasol yn cael eu cytuno gyda'r Bwrdd.